Siarad Gyda Fi
Talk With Me

# Dysgu Siarad

## Oedrannau a Chyfnodau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

### Oedrannau a Chyfnodau 6 Mis

Mae'ch babi'n gwylio'ch wyneb pan fyddwch chi'n siarad â nhw.

Maen nhw'n chwarae gyda synau, byddwch chi'n clywed synau fel '**bababa**'.

Maen nhw'n dechrau deall pan fyddwch chi'n dweud pethau wrth i chi eu gwneud, fel '**ta-ta**' neu '**i fyny**'.

Maen nhw'n dwlu ar gemau, fel cuddio'ch wyneb ac yna dweud '**bw!**'.



**AWGRYM DA**

Siaradwch â'ch babi wrth wneud pethau gyda'ch gilydd, newid cewynnau/clytiau, bwydo neu wrth fynd am dro.

### Oedrannau a Chyfnodau 1 Oed

Bydd eich babi'n '**sgwrsio**' â chi ac yn dechrau defnyddio ambell air unrhyw bryd nawr.

Efallai na fydd eu geiriau newydd yn swnio fel geiriau oedolion, ond byddwch yn gwybod beth maen nhw'n ei olygu.

Maen nhw'n gallu gwneud pethau syml os ydych chi'n gofyn iddyn nhw ac yn gwneud ystumiau, fel '**rho fe i Mam**'.

Maen nhw wrth eu bodd yn eich cwmni, yn gwylio'r hyn rydych chi'n ei wneud, a chymryd tro yn gwneud synau gyda chi.



**AWGRYM DA**

Helpwch eich babi i wrando drwy ddiffodd y teledu a sgriniau pan fyddwch chi'n siarad a chwarae gyda nhw.

### Oedrannau a Chyfnodau 18 Mis oed

Bydd eich plentyn bach yn dechrau defnyddio mwy o eiriau, tua 20 ohonyn nhw. Er nad ydyn nhw'n swnio'n gwbl gywir efallai, rydych chi'n gwybod beth maen nhw'n ceisio ei ddweud.

Gallan nhw ddod o hyd i bethau rydych chi'n gofyn amdanyn nhw, fel lluniau mewn llyfr neu deganau yn yr ystafell.

Byddan nhw'n defnyddio llawer o barablu a geiriau ac efallai'n '**siarad**' wrth chwarae.

Maen nhw'n dechrau esgus wrth chwarae gyda phethau, fel dal ffôn i'w clust neu yfed allan o gwpan tegan.



**AWGRYM DA**

Helpwch eich plentyn i ddysgu geiriau newydd drwy siarad am y pethau welwch chi. Defnyddiwch yr enwau cywir am bethau a siaradwch am beth maen nhw'n ei wneud.

### Oedrannau a Chyfnodau 2 Oed

Mae plant yn deall brawddegau hirach, fel '**mae dy esgidiau di lan lofft**'.

Maen nhw'n dechrau defnyddio llawer o eiriau unigol, 50 neu fwy.

Maen nhw'n dechrau rhoi rhai geiriau at ei gilydd i greu brawddegau, fel '**tedi wedi mynd**' neu '**pêl Dadi**'.

Maen nhw'n gallu chwarae ochr yn ochr â phlant eraill.

Efallai y byddan nhw'n dechrau rhannu, ond mae'n eithaf anodd iddyn nhw.



**AWGRYM DA**

Helpwch eich plentyn i ddysgu geiriau a brawddegau newydd drwy ychwanegu gair at rywbeth maen nhw'n ddweud. Os ydyn nhw'n dweud '**cath**' gallwch ddweud '**ie, mae'r gath yn cysgu**'.

### Oedrannau a Chyfnodau 3 Oed

Mae plant yn defnyddio brawddegau hirach fel, '**Dwi wedi gweld Mam**' neu '**Dw i'n mynd i nôl car**'.

Efallai y bydd plant yn baglu dros eu geiriau ac yn ailadrodd eu hunain.

Maen nhw'n dechrau deall geiriau cwestiynau fel '**pwy?**', '**beth?**' a '**ble?**'.

Maen nhw'n mwynhau chwarae gemau gyda phlant eraill ac yn deall sut mae cymryd tro.



**AWGRYM DA**

Rhowch amser i'ch plentyn siarad â chi. Os ydych chi'n brysur, dywedwch hynny a mynd yn ôl atyn nhw pan fydd gennych fwy o amser i wrando ac ymuno yn y sgwrs.

### Oedrannau a Chyfnodau 4 Oed

Mae hyd yn oed pobl sydd ddim yn adnabod eich plentyn yn dda yn deall beth maen nhw'n ei ddweud, ond efallai fod ambell sain yn anodd o hyd, fel '**r**', '**th**', '**si**', '**ts**', '**ng**', '**ch**' ac '**ll**'.

Mae plant yn gofyn llu o gwestiynau, yn enwedig '**pam...?**'.

Mae'ch plentyn yn dechrau deall geiriau lliw, rhif ac amser, fel '**dangos tri bys i mi**', '**rydyn ni'n mynd fory**'.

Maen nhw'n gallu defnyddio eu geiriau i ddweud wrthych chi sut maen nhw'n teimlo, a sôn am eu syniadau.



**AWGRYM DA**

Siaradwch â'ch plentyn am yr hyn maen nhw'n ei wneud yn hytrach na gofyn pentwr o gwestiynau. Gall cwestiynau wneud i blentyn deimlo dan bwysau i siarad.

### Oedrannau a Chyfnodau 5 Oed

Gall eich plant roi'r gorau i'r hyn maen nhw'n ei wneud a gwrando arnoch chi pan fyddwch chi'n dweud eu henw.

Maen nhw'n deall brawddegau hir gyda mwy o wybodaeth, fel '**chwilia am bensiliau lliw oren a du**'.

Maen nhw'n cael y rhan fwyaf o'r synau mewn geiriau'n iawn, er bod rhai geiriau hirach fel '**cyfrifiadur**' braidd yn anodd o hyd.

Maen nhw'n gallu defnyddio iaith mewn sawl ffordd wahanol, i sôn am eu teimladau, darbwyllo eraill neu anghytuno.



**AWGRYM DA**

Edrychwch ar lyfrau stori gyda'ch gilydd a siaradwch am y lluniau. Mae rhannu llyfrau gyda'ch plentyn yn eu helpu i ddysgu geiriau newydd.

I CAN helps children communicate

I wybod mwy am sut i helpu'ch plentyn i siarad, ewch i **www.llyw.cymru/siaradgydafi**

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch siarad â'ch plentyn, cysylltwch ag Ymwelydd Iechyd eich plentyn.

Am fwy o wybodaeth am I CAN, ewch i **www.ican.org.uk**

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42231